

**Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol/  
Head of Corporate and Customer Services**  
Sioned Wyn Davies LLB (Hons) Birm Solicitor

Neuadd y Dref, Wrexham, LL11 1AY  
Guildhall, Wrexham, LL11 1AY  
Ffacs/Fax: 01978 292207  
www.wrexham.gov.uk www.wrexham.gov.uk



Eich Cyf/Your Ref  
Ein Cyf/Our Ref  
Dyddiad/Date Dydd Mercher, 6 Mawrth 2019  
Gofynnwr am/Ask for Helen Coomber  
Rhif Union/Direct Dial 01978 292236  
Cyfnewid Testun/Text Relay 18001  
E-bost/E-mail [helen.coomber@wrexham.gov.uk](mailto:helen.coomber@wrexham.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Gofynnir i chi i ddod i **Gyfarfod BWRDD GWEITHREDOL Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham** sydd i'w gynnal yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF ar DYDD MAWRTH, 12 MAWRTH 2019** am **10.00 am** i drafod y busnes sydd yn y Rhaglen dros y dudalen.

Yn gywir

Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid

### **HYSBYSIAD GWEDDARLLEDU**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio ar gyfer darllediad byw a/neu ddarllediadau dilynol neu fe ellir ei ddefnyddio at ddibenion hyfforddi o fewn y Cyngor. Bydd y cyfarfod cyfan yn cael ei ffilmio ar wahân i rannau lle mae eitemau cyfrinachol neu wedi'u heithrio, a bydd y cofnod yn cael ei gynnwys yn yr archif er mwyn gallu ei wyllo eto.

Ni chaiff ardaloedd eistedd y cyhoedd eu ffilmio fel arfer. Fodd bynnag, drwy fynd i'r Siambr rydych yn rhoi caniatâd i gael eich ffilmio ac at y defnydd posibl o'r delweddau hynny ac unrhyw recordiadau sain ar gyfer gweddarlledu a/neu ddibenion hyfforddi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch hyn, cysylltwch â'r Arweinydd Gwasanaethau Pwyllgorau ar 01978 292236.

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.  
Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.*

*We welcome correspondence in Welsh.  
We will respond to any correspondence in Welsh and this will not lead to any delay.*



## R H A G L E N

### NODER:

Gall unrhyw Aelod o'r Cyngor fod yn bresennol ar gyfer Eitem 1(b) ar y Rhaglen am 10.00 am i ofyn cwestiynau, ond, yn unol â threfniadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol, dylai Aelodau sy'n gwybod ymlaen llaw eu bod yn dymuno gofyn cwestiwn, roi gwybod i'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid am eu cwestiynau erbyn dim hwyrach na 4:45 pm ar ddydd Gwener, 8 Mawrth 2019.

#### 1 Cwestiynau

(a) Cwestiynau/Datganiadau Cyhoeddus

(b) Cwestiynau Aelodau

#### 2 Ymddiheuriadau am absenoldeb

#### 3 Datganiadau o gysylltiadau personol, os oes rhai

Atgoffir yr Aelodau o'u cyfrifoldeb, dan Baragraff 11 o God Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan bodolaeth a natur unrhyw gysylltiad personol mewn perthynas ag unrhyw un o'r busnesau i'w trafod yn y cyfarfod hwn

#### 4 Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2019 fel cofnod cywir (*Tudalennau 5 - 10*)

#### 5 Cynnig i ymgynghori ar y cynnydd mewn lleoedd disgyblion yn Ysgol Gynradd Lôn Barcas - Adborth Ymgynghoriad

I ystyried adroddiad yr Aelod Arweiniol Pobl – Addysg (*Tudalennau 11 - 48*)

#### 6 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Wrecsam

I ystyried adroddiad yr Aelod Arweiniol ar gyfer Lle – Amgylchedd a Thrafnidiaeth (*Tudalennau 49 - 108*)

#### 7 Diweddarau Polisi a Ffioedd Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth

I ystyried adroddiad yr Aelod Arweiniol Pobl – Cymunedau, Partneriaethau, Gwarchod y Cyhoedd a Diogelwch Cymunedau a'r Aelod Arweiniol ar gyfer Lle - Tai (*Tudalennau 109 - 182*)

#### 8 Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam

I ystyried adroddiad yr Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol (*Tudalennau 183 - 244*)

#### 9 Unrhyw eitemau eraill y mae'r Cadeirydd yn penderfynu eu bod yn rhai brys

#### 10 Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd

Wrth ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r rhan nesaf o'r cyfarfod, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu ar brawf lles y cyhoedd.

Eitem 11 – Nid i'w gyhoeddi yn rhinwedd Paragraff 15 o Ran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r Swyddog Priodol wedi penderfynu y dylai Paragraff 15 fod yn gymwys wrth ystyried yr adroddiad hwn. Ei barn o ran prawf lles y cyhoedd oedd, er ei fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd awdurdodau cyhoeddus dros y penderfyniadau a gymerir ganddynt, roedd hi yn fodlon y byddai datgelu'r wybodaeth yn yr achos hwn yn rhagfarnu'r drafodaeth mewn perthynas â chysylltiadau llafur, er anfantais yr awdurdod a phreswylwyr ei ardal. Ar sail hynny, teimlai fod lles y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn drech na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

**Felly, argymhellir bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r Cyfarfod tra bydd yr eitem canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol, pe baent yn bresennol, y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 15, Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).**

- 11 **Ebrill 2019 dyfarniad lwfans cost byw NJC**  
I ystyried adroddiad yr Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol (*Tudalennau 245 - 256*)
- 12 **Unrhyw eitemau eraill y mae'r Cadeirydd yn penderfynu eu bod yn rhai brys**

### **ADRODDIADAU GWYBODAETH**

Mae'r Adroddiadau Gwybodaeth canlynol wedi cael eu cylchredeg i Aelodau ers Cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gweithredol:

- [Gwasanaethau Bysiau Lleol](#)
- [Caffi Parc Gwledig Dyfroedd Alun](#)

### **RHAGLEN WAITH GYNLLUNIEDIG**

Mae modd gweld Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol presennol y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol drwy'r ddolen a ganlyn:

[https://www.wrexham.gov.uk/welsh/council\\_w/forward\\_work\\_programme\\_w/exec\\_board/index.cfm](https://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/forward_work_programme_w/exec_board/index.cfm)

**I'R: CADEIRYDD AC AELODAU O'R BWRDD GWEITHREDOL**

Y Cynghorydd Andrew Atkinson  
" William Baldwin  
" David A Bithell  
" Terry Evans  
" D J Griffiths

Y Cynghorydd Hugh Jones (Is-gadeirydd)  
" David Kelly  
" Joan Lowe  
" Mark Pritchard (Cadeirydd)  
" Phil Wynn